CANOLFAN CYMRAEG I OEDOLION GOGLEDD CYMRU
WELSH FOR ADULTS CENTRE NORTH WALES

PANEL ANSAWDD

Cynhaliwyd cyfarfod o'r Panel ddydd Mercher, Ionawr 9 am 10.30yb yn ystafell Madog, Coleg Llandrillo Cymru, Llandrillo yn Rhos.

Presennol: Caroline Williams (Coleg Meirion Dwyfor); James Nelson (Coleg Llandrillo Cymru); Julie Brake (NEWI); David Hedley Williams (Nant Gwrtheyrn); Elwyn Hughes (Prifysgol Bangor); Howard Edwards (Popeth Cymraeg); Dafydd Rhys (Coleg Harlech WEA); Sharon Owen (Coleg Menai); Jina Gwyrfai (Canolfan Cymraeg i Oedolion); Pam Evans-Hughes (Canolfan Cymraeg i Oedolion); Gwenan Owain (Coleg Llysfasi); Caroline Lewis (DYSG); Haydn Hughes (Canolfan Cymraeg i Oedolion); Ifor Gruffydd (Canolfan Cymraeg i Oedolion); Iwan Davies (Ysgrifennydd)

Ymddiheuriadau: Rhian McCarthy (Coleg Llandrillo Cymru); Dr Ioan Ap Dewi (Prifysgol Bangor); David Jones (NEWI); Richard Lewis (Coleg Garddwriaeth Cymru); Alan Gordon (Coleg Garddwriaeth Cymru); Jeni Harris (Coleg Iâl); Andrew Hepton (Coleg Harlech WEA); Ioan Talfryn (Popeth Cymraeg); Ifan Prys (Nant Gwrtheyrn)

Gweithredu

1. CROESO AC YMDDIHEURIADAU

Croesawodd Gwenan Owain, Cadeirydd bawb i'r cyfarfod ac yn enwedig Caroline Lewis, DYSG.

2. CADARNHAU COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 10 Hydref 2007

Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Hydref 2007 yn gywir.

3. MATERION YN CODI

5. Arsylwi – Mae'r Ganolfan wedi arsylwi NEWI, Coleg Iâl a Coleg Llysfasi yn ystod Tachwedd a Rhagfyr 2007.

- Darparwyd cyrsiau hyfforddi i'r tiwtoriaid i'w paratoi ar gyfer cael eu hyfforddi.
- Rhoddwyd adroddiad byr ar lafar ble roedd y gwendidau, bydd y Ganolfan yn darparu hyfforddiant i'r tiwtoriaid.

- Bydd HH yn ymweld â'r darparwyr yn ystod y pythefnos nesaf i roi adborth fesul sefydliad.
- Bydd Popeth Cymraeg a Coleg Llandrillo Cymru yn cael eu harsylwi yn ystod Chwefror/Mawrth 2008. **APELIWYD AM YR AMSERLENNI.** **Darparwyr**

6. Cynllun Dysgu Unigol - mae sylwadau ar Cynllun Dysgu Unigol wedi ei gwneud yn ystod arolwg Caerdydd a'r Fro, yn sgil hyn bydd rhaid gwneud newidiadau i'r ffurflen dysgu unigol, ***HH i anfon copi electroneg at y darparwyr.*** **HH** Bydd HH yn cydweithio efo Canolfan y Canolbarth efo'r Cynllun Dysgu Unigol, Bydd HH yn barod i dderbyn unrhyw newidiadau gan ddarparwyr cyn belled â bod prif elfennau'r Cynllun Dysgu Unigol enghreifftiol yn bresennol.

11. Arholiadau CBAC - Canolfan Cymraeg i Oedolion fydd yn gyfrifol am gydlynu a bydd yr holl wybodaeth yn cael ei drosglwyddo i CBAC, ***gofynnir am y ffurflenni yn ôl gan y darparwyr cyn gynted â phosib.*** **Darparwyr**

4. HUNAN ASESU – GOFYNION Y GANOLFAN A MEWNBWN Y DARPARWYR – SESIWN GYDA CAROLINE LEWIS (AR RAN APADGOS)

- Rhoddodd HH groeso i Caroline Lewis, DYSG i'r cyfarfod, eglurodd bod ymgynghorwyr wedi eu penodi ar gyfer pob Canolfan.
- Mynegodd CL bod y sefyllfa yn un gymhleth iawn gan fod gymaint o wahaniaethau rhwng y darparwyr. Mae cymaint o bethau sydd raid eu cymryd i ystyriaeth.
- Mae'n holl bwysig bod AHA y darparwyr yn bwydo i mewn yn uniongyrchol i AHA'r Ganolfan - bydd yn rhaid i'r Ganolfan a'r Darparwyr ddod i gytundeb ac anelu at gael yr AHA yn gyflawn yn barod erbyn Tachwedd/Rhagfyr.
- Bydd rhaid rhannu ymarfer da.
- Dosbarthwyd copïau o ffeiliau ac eglurodd Caroline Lewis fod enghreifftiau da ar sut i greu AHA a bydd y rhain o ddefnydd i'r darparwyr.
- Cytunodd y darparwyr i rannu eu AHA efo'i gilydd a gyda'r Ganolfan.
- Bydd rhaid ystyried gwaith y Ganolfan, Darparwyr a'r tiwtoriaid yn yr AHA. Rhaid bod yn glir beth yw cyfrifoldebau'r darparwyr.
- ***Hoffai HH dderbyn copïau o holiaduron gwerthuso cyrsiau gan y darparwyr i weld os y gallwn gysoni dogfennaeth.*** **Darparwyr**
- Bydd angen i'r Ganolfan ddatgan polisi ar Gyfartaledd. Rheoli Data a Grwpiau Ffocws myfyrwyr ac mae'n holl bwysig bod y darparwyr yn cyflwyno eu cryfderau a'i gwendidau.
- ***Bydd angen rhestr gan y Ganolfan i'r Darparwyr o beth sydd ei angen ar AHA'r Ganolfan. Gofynnwyd i'r darparwyr anfon eu AHA at y Ganolfan cyn gynted â phosib erbyn diwedd Ionawr 2008*** ac yna dechrau ar y gwaith. **HH** **Darparwyr**

- Cynhelir sesiynau i diwtoriaid yn ystod y gynhadledd er mwyn iddynt roi mewnbwn i'r AHA.
- Penderfynwyd cael grŵp bychan at ei gilydd sef Sharon Owen, Coleg Menai, Gwenan Owain, Coleg Llysfasi,a James Nelson, Coleg Llandrillo Cymru i drafod AHA drafft y Ganolfan - ***bydd rhaid trefnu cyfarfod ar ôl hanner tymor.*** **ID**

Cwestiynau i Caroline Lewis eu hadrodd yn ôl: Oes modd cael ymdriniaeth gyson rhwng Canolfannau Cymraeg i Oedolion Gogledd Cymru a'r Canolbarth?

5. U.F.A.

Nid oedd unrhyw fater arall i'w godi.

6. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Dydd Mercher, 12fed Mawrth 2008 am 10.30yb, Ystafell Rhos, Coleg Llandrillo Cymru, Llandrillo yn Rhos.